

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Hawliau Hil yn y

Deyrnas Unedig

Crynodeb o gyflwyniad i Bwyllgor
y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu
Gwahaniaethu Hiliol yn unol â
gweithdrefnau'r Pwyllgor i gynnal
archwiliad dilynol ar yr Arsylwadau
Terfynol

Awst 2017



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Cyflwyniad

Cwmpas yr adroddiad

Fis Awst 2016, archwiliodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu Hiliol (UN CERD) y modd y mae'r DU'n gweithredu'r Confensiwn Rhyngwladol ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar Sail Hil (CERD). Roedd Arsyllwadau Terfynol UN CERD¹ yn cwmpasu amrywiaeth eang o feysydd lle mae gofyn i Lywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru wella er mwyn cyflawni'u rhwymedigaethau i gondemnio gwahaniaethau hiliol yn llawnach ac arddel pob modd priodol o weithredu polisi ar ddileu gwahaniaethu hiliol.²

Yn ei Arsyllwadau Terfynol, gofynnodd UN CERD am ddiweddariad gan y DU ar dri o'i argymhellion; sef y rheiny am **iaith casineb hiliol a throeddau casineb, mesurau gwrthderfysgaeth, ac iechyd**³. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi persbectif annibynnol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), un o sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol (NHRI) y DU, ar y datblygiadau ers mis Awst 2016 o ran y tri argymhelliad hynny yn Lloegr, yr Alban a Chymru.

Cytunodd EHRC â Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC) y byddai'r EHRC yn arwain trwy gwmpasu materion a gedwir yn ôl a materion datganoledig yn yr Alban ar gyfer yr adroddiad hwn, ac y byddai SHRC yn adolygu'r cynnwys ac yn ychwanegu tystiolaeth newydd o'u hymchwil eu hunain.

Y Prif Ddatblygiadau

Yn dilyn y refferendwm ar yr Undeb Ewropeaidd (UE) fis Mehefin 2016, mae ansicrwydd sylweddol yn parhau yn y DU ynghylch beth fydd yn digwydd i'r amddiffyniadau sy'n deillio o gyfraith yr UE, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil.⁴ Mae'r EHRC yn ystyried bod ymadawriad y DU â'r UE yn

¹ UN CERD (2016), '[Concluding observations on the twenty-first to twenty-third periodic reports of United Kingdom](#)' [agorwyd: 16 Awst 2017] (O hyn allan: 'UN CERD, 'Arsyllwadau Terfynol')

² Erthygl 2, CERD

³ UN CERD, Arsyllwadau Terfynol, paragraffau 16, 19 a 31

⁴ Er enghraifft, Erthygl 20 Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd ar gydraddoldeb o dan y gyfraith, Erthygl 21 ar beidio â gwahaniaethu, a hawliau ymarferol sy'n berthnasol i'r cyflwyniad yma, er enghraifft yr hawl i ofal iechyd, rhyddid mynegiant, preifatrwydd a rhyddid crefydd.

cynnig cyfle i wella statws cytuniadau hawliau dynol rhyngwladol y mae'r DU yn rhan ohonynt, er enghraifft CERD. Hyd yma fodd bynnag ni fu unrhyw arwydd gan Llywodraeth y DU ei bod yn ystyried gwneud hyn.

Fis Mai 2017, cynhaliwyd y trydydd Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol (UPR) o'r DU. Cafwyd nifer sylweddol o argymhellion o ran trosedd casineb, yn ogystal ag argymhellion ar ymgorffori CERD yn y gyfraith ddomestig, a mesurau i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil yng nghyd-destun stopio a chwilio.⁵ Ar adeg ysgrifennu'r cyflwyniad hwn, nid oedd Llywodraeth y DU wedi ymateb i ddangos pa rai o argymhellion yr Adolygiad y mae'n eu derbyn.

Fis Mehefin 2017, cynhaliodd y DU etholiad cyffredinol a dychwelodd y Blaid Geidwadol i rym, er bod hynny heb fwyafrif. Roedd mewnfudo'n parhau i fod yn un o bynciau trafod y cyhoedd yn ystod yr etholiad, ac mewn ambell achos, arweiniodd y trafodaethau hynny at enghreifftiau o iaith casineb.⁶

Cynnydd cyfyngedig yn unig a gafwyd o ran rhoi ar waith argymhellion diweddar y Cenhedloedd Unedig ar y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol, a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Croesawyd datganiad yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros y System Ysgolion ar y mesurau y byddai Adran Addysg Llywodraeth y DU yn eu dilyn i roi argymhellion Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UN CRC) ar waith⁷. Fodd bynnag, roedd oedi cyn mynd ati i weithredu'n benodol yn dilyn y newid Llywodraeth, ac ni chyflwynwyd unrhyw ymateb sy'n mynd i'r afael â manylion argymhellion UN CRC.

O ystyried y sylw a rydd Llywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru i oblygiadau refferendwm yr UE a'r etholiad cyffredinol, mae'r EHRC yn pryderu na fydd y DU yn datblygu cynlluniau penodol o fewn terfynau amser penodol i roi'r UPR ac argymhellion y corff cytuniad ar waith, gan gynnwys argymhellion UN CERD.

Ers Awst 2016, mae Llywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru wedi gwneud cynnydd nodedig mewn ambell faes, sef:

- Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Archwiliad Anghyfartaledd Hiliol i alluogi pobl i weld sut y mae eu hil yn effeithio ar y ffordd y cânt eu trin gan wasanaethau cyhoeddus.
- Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar Drosedd Casineb.
- Lleihad graddol yn nifer y troseddau casineb sy'n cael eu hysgogi gan hil yn yr Alban, a chyhoeddi argymhellion y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ar Drosedd Casineb.

⁵ Cyngor Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (2017), '[Report of the Working Group on the Universal Periodic Review United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland](#)' [agorwyd: 30 Awst]

⁶ Isaac, D. a Hilsenrath, R., Cadeirydd a Phrif Weithredwr EHRC (2016), '[A letter to all political parties in Westminster](#)', 25 Tachwedd [agorwyd: 16 Awst 2017]

⁷ Lord Nash (2016), '[Commitment to UNCRC: Written Statement](#)' - HLWS197, 17 Hydref [agorwyd: 16 Awst 2017]

- Amrywiaeth o fentrau gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â throstedd casineb, fel y gwelir yn ei hadroddiadau cynnydd ar ei fframwaith gweithredu yn erbyn troseddau casineb.
- Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd adolygiad yn cael ei gynnal o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- Cyflwyno safon cydraddoldeb hiliol y gweithlu i wella cydraddoldeb hiliol ymysg staff y GIG yn Lloegr.

Ers Awst 2016, mae rhai heriau hefyd wedi codi neu wedi parhau:

- Diffyg strategaeth gydgysylltiedig ledled y DU i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol a gwahaniaethu ar sail hil.
- Mae achosion o droseddau casineb a gofnodwyd gan yr Heddlu wedi cynyddu yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig ar ôl digwyddiadau o arwyddocâd cenedlaethol fel yr ymosodiadau terfysgol ger Pont Llundain ac yn Arena Manceinion.
- Mae rhwystrau i adrodd am droseddau casineb ac anawsterau wrth gofnodi troseddau casineb yn parhau ym Mhrydain Fawr.
- Nid yw casglu data ar ethnigrwydd ac iechyd meddwl ym Mhrydain Fawr yn cynorthwyo i gynllunio ymyriadau'n effeithiol er mwyn mynd i'r afael â chanlyniadau a phrofiadau gwael pobl o leiafrifoedd ethnig.
- Mae pobl o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o gael eu cadw'n orfodol gan ddeddfwriaeth iechyd meddwl.
- Mae deilliannau iechyd gwael a mynediad anghyfartal i wasanaethau iechyd i Sipsiwn a Theithwyr ledled Prydain Fawr.
- Cyflwynwyd mesurau codi tâl newydd yn Lloegr a allai atal ceiswyr lloches rhag cael mynediad i wasanaethau iechyd.
- Targedu Mwslimiaid trwy raglen Channel, rhan o strategaeth gwrthderfysgaeth Prevent.
- Pryderon ynghylch effaith strategaeth Prevent ar hawliau dynol, gan gynnwys yr hawl i ryddid mynegiant, preifatrwydd, addysg a rhyddid crefydd.

Adroddiadau eraill y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar wahaniaethu ar sail hil

Fis Gorffennaf 2016, cyflwynodd EHRC adroddiad llawn i UN CERD ar weithredu CERD yn y DU, cyn cynnal ei archwiliad o'r DU⁸. Roedd ein hadroddiad yn 2016 yn cwmpasu cyflwr hawliau hil ym Mhrydain Fawr o ran:

- Mynediad i gyfiawnder

⁸ EHRC (2016), '[Race rights in the UK](#)': submission to UN CERD in advance of the public examination of the UK's implementation of CERD' [agorwyd: 16 Awst 2017] (O hyn allan: 'Race rights in the UK')

- Amodau cyfiawn a theg yn y gwaith
- Addysg
- Tai
- Iechyd
- Cynrychiolaeth wrth lunio penderfyniadau
- Trosedd casineb
- Gwahaniaethu ar sail cast (*caste*)
- Stopio a chwilio
- Trais yn erbyn menywod a merched
- Cadw mewn sefydliad

Ers archwilio'r DU, cyhoeddodd EHRC 'Uno Prydain ranedig: yr angen am strategaeth cydraddoldeb hiliol cynhwysfawr', sef ei adolygiad helaethaf erioed o anghydraddoldeb hiliol ym Mhrydain Fawr. Mae'r adroddiad yn dadansoddi'n gynhwysfawr a yw ein cymdeithas yn gwireddu'i addewid i fod yn deg i'w holl ddinasyddion, ac yn argymhell y dylai Llywodraethau'r DU, yr Alban a Chymru fynd i'r afael â phrofiad pobl ym Mhrydain Fawr o anghydraddoldeb a gwahaniaethu hiliol mewn modd cynhwysfawr a chydgysylltiedig.⁹

Rôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC)

Sefydlwyd EHRC gan Senedd y DU trwy Ddeddf Cydraddoldeb 2006 fel corff annibynnol gyda mandad i gwmpasu cydraddoldeb a hawliau dynol. Ymhlith ei gyfrifoldebau eraill ym maes hawliau dynol, mae'r EHRC yn gyfrifol am 'annog arfer da o ran hawliau dynol'.¹⁰ Mae Senedd y DU hefyd wedi cyflwyno cyfrifoldebau i'r EHRC asesu ac adrodd ar gynnydd Prydain Fawr wrth wireddu'r hawliau dynol hynny yn y cytuniadau y mae wedi eu dilysu¹¹. Mae'r EHRC yn gweithio gyda NHRI eraill yn y DU ac yn cysylltu ag adrannau'r llywodraeth ac asiantaethau i gyflawni'r rôl yma.

⁹ EHRC (2016), '[Uno Prydain ranedig](#)' [agorwyd: 16 Awst 2017] (O hyn allan: 'Uno Prydain ranedig')

¹⁰ [Adran 9\(1\)\(b\) Deddf Cydraddoldeb 2006](#) [agorwyd: 16 Awst 2017]

¹¹ [Adran 9\(2\) Deddf Cydraddoldeb 2006](#) [agorwyd: 16 Awst 2017]

Archwiliad Anghyfartaledd Hiliol

Argymhelliad

Dylai Llywodraeth y DU osod amserlen eglur ar gyfer cyhoeddi'r dadansoddiad o'i Archwiliad Anghyfartaledd Hiliol. Dylai'r Archwiliad fod yn gam cyntaf un yn y dasg o ddatblygu strategaeth gydgysylltiedig a hirdymor i sicrhau cydraddoldeb hiliol, gyda thargedau newydd ymestynnol a chamau gweithredu diamwys i wella cyfleoedd a deilliannau i leiafrifoedd ethnig. Dylai'r strategaeth roi trefniadau llywodraethu eglur ar waith ymhob adran er mwyn cydgysylltu'n effeithiol y camau gweithredu i sicrhau cydraddoldeb ar sail hil.

Er mwyn i'r strategaeth fod mor effeithiol â phosibl ar draws Prydain, dylid ei chydgylltu â Llywodraethau Cymru a'r Alban, gan ystyried y mentrau sy'n bodoli eisoes fel Fframwaith Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth yr Alban a Chynllun Cydraddoldeb ac Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, ac adeiladu ar y rhain.

Dylai Llywodraeth yr Alban ddefnyddio dull cyfranogol a chynhwysol o roi ei Fframwaith Cydraddoldeb Hiliol ar waith yn lleol ac yn genedlaethol, gan sicrhau ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid statudol a'r gymdeithas sifil.

Trosedd casineb

Argymhellion

Er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau dan Erthyglau 2, 4 a 6 CERD, i wahardd unrhyw unigolyn, grŵp neu sefydliad rhag gwahaniaethu ar sail hil, i gondemnio'r holl bropaganda sy'n ceisio cyfiawnhau neu hyrwyddo casineb hiliol, i fabwysiadu mesurau di-oed a phositif i ddileu trosedd casineb ac i sicrhau bod dioddefwyr trosedd casineb yn cael mynediad i amddiffyniad a modd unioni sy'n effeithiol:

Dylai Llywodraeth y DU:

- Gynnal adolygiad llawn o ddeddfwriaeth trosedd casineb yng Nghymru a Lloegr, gan ystyried darganfyddiadau adolygiad 2014 Comisiwn y Gyfraith o ddeddfwriaeth trosedd casineb. Dylai'r adolygiad gynnwys ystyriaeth fanwl o'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu iaith casineb ar-lein, ac yn anad dim, a yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn cynnig cydbwysedd rhwng sancsiynau am iaith casineb a'r hawl i ryddid mynegiant mewn cyfathrebiadau electronig preifat.
- Cynnal adolygiad llawn o droseddau gwaethygedig a'r ddarpariaeth ar gyfer dedfrydu mewn achosion o drosedd casineb yng Nghymru a Lloegr, a monitro defnydd o'r canllawiau dedfrydu am drosedd casineb yng Nghymru a Lloegr er mwyn asesu cysonder y dedfrydu.
- Adolygu gweithrediad ac effeithiolrwydd dedfrydu am droseddau casineb yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y gallu i gynyddu dedfrydau am droseddau ac sy'n cael eu hysgogi gan gasineb.
- Cynnal adolygiad o ddarpariaeth mecanweithiau adrodd trydydd parti i werthuso'u heffaith a'u cynaliadwyedd, i ddwyn sylw at fylchau daearyddol a phynciol, ac i sicrhau bod adroddiadau ar ddata ar ffurf sy'n gyson â systemau cofnodi'r heddlu.
- Monitro a chyhoeddi troseddau casineb yn erbyn Sipsiwn a Theithwyr yn fater o drefn, a gorfodi'u heddluoedd i gynnwys Sipsiwn a Theithwyr yn eu systemau monitro ethnig.

Dylai Llywodraeth y DU, a Llywodraethau'r Alban a Chymru:

- Wella'r ffordd y cesglir ac y rhennir data fel bod modd cynnal dadansoddiad cadarn er mwyn deall effeithiolrwydd eu dulliau o drin trosedd casineb. Dylai'r data gael eu dadgyfuno'n llawn ar sail nodweddion gwarchoddedig gan gynnwys

hil a chrefydd, a dylai'r dulliau casglu data fod yn gyson ar draws y gwahanol wledydd, y system gyfiawnder troseddol ei hun ac o fewn asiantaethau unigol er mwyn galluogi dadansoddiad cymharol a chronolegol.

- Sicrhau bod yr heddlu ac asiantaethau statudol eraill yn gwerthuso'u prosesau adrodd a chofnodi mewn ymgynghoriad ag aelodau o gymunedau lleol, ac yn cymryd camau i'w symleiddio.
- Sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn y sectorau cyfiawnder troseddol, tai, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol ac awdurdodau lleol yn cydgysylltu'u hymdrechion yn effeithiol er mwyn atal trosedd casineb a mynd i'r afael â'r mater.
- Sicrhau bod heddluoedd yn Lloegr, yr Alban a Chymru yn cyfeirio holl ddioddefwyr trosedd a digwyddiadau casineb i'r gwasanaethau cymorth perthnasol. Dylai gwasanaethau o'r fath gael eu hariannu'n ddigonol. Dylai pob dioddefwr gael gwybod a fydd rhywun ymchwilio i'w achos ac/neu yn dwyn achos cyfreithiol, a chael diweddariad rheolaidd ar gynnydd unrhyw ymchwiliad neu erlyniad.

Dylai Llywodraeth yr Alban:

- Ddatblygu cynllun i weithredu argymhellion eraill y grŵp ymgynghorol annibynnol ar drosedd casineb, a chyflwyno adroddiad yn flynyddol ar y camau a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed.
- Sicrhau bod mesurau a gymerir i fynd i'r afael â throsedd casineb a chryfhau gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr yn gyfranogol ac yn gynhwysol, ac yn ymgysylltu amrywiaeth eang o randdeiliaid lleol (fel busnesau, ysgolion a grwpiau cymunedol) er mwyn gallu darganfod pa fesurau amddiffynnol penodol sydd eu hangen ar grwpiau unigol.

Iechyd

Argymhellion

Er mwyn cyflawni'u rhwymedigaethau dan Erthygl 5(e)(iv) CERD, i wahardd a dileu gwahaniaethu hiliol a gwarantu'r hawl i iechyd cyhoeddus a gofal meddygol heb wahaniaethu o ran hil, lliw neu darddiad cenedlaethol neu ethnig:

- Dylai Llywodraeth y DU benodi Hyrwyddwr Cydraddoldebau cyn gynted â phosibl i sbarduno newidiadau wrth fynd i'r afael â chydaddoldebau o ran iechyd meddwl ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol, yn unol ag argymhelliad y tasglu Iechyd Meddwl.
- Dylai GIG Lloegr a'r Adran Iechyd fanylu ar y camau gweithredu penodol y byddant yn eu cymryd i leihau'n sylweddol nifer y rhai sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ac i leihau cyfran y rhai o leiafrifoedd ethnig sy'n cael eu cadw.
- Dylai'r Adran Iechyd a GIG yr Alban a Lloegr sicrhau bod comisiynwyr a darparwyr yn casglu, dadansoddi a chyhoeddi'n systematig ddata dadgyfunol ar ethnigrwydd o ran mynediad a phrofiad cleifion ymhob lleoliad iechyd meddwl. Byddai hyn yn eu helpu i ddeall yn well y problemau sy'n wynebu lleiafrifoedd ethnig, asesu cynnydd dros amser a darganfod llwybrau gofal a chamau gweithredu a allai fod yn fwy effeithiol wrth atal a thrin cyflyrau iechyd meddwl mewn gwahanol gymunedau. Dylai'r dadansoddiad o'r data archwilio problemau croestoriadol posibl (er enghraifft dynion ifanc Duon) a dylid ei ddefnyddio i werthuso effaith gwasanaethau ac ymyriadau, yn ogystal ag i ddarparu gwybodaeth ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau.
- Er mwyn gallu cynllunio ymyriadau effeithiol i wella amrywiaeth ei weithlu, dylai GIG yr Alban gasglu data cynhwysfawr ar amrywiaeth ethnig.
- Er mwyn cynorthwyo gyda Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus dan adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010, dylai GIG Lloegr, GIG yr Alban a GIG Cymru gasglu data cynhwysfawr ar ddeilliannau Sipsiwn a Theithwyr a'u defnyddio o wasanaethau iechyd ar draws y GIG. Dylai'r data ddarparu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer gwella iechyd Sipsiwn a Theithwyr ym Mhrydain Fawr.
- Dylai'r Adran Iechyd gymryd camau i sicrhau bod gan staff y rheng flaen ddealltwriaeth o'r rheoliadau codi tâl a'r gofyniad i asesu cymhwyster gan ei bod

yn debygol y byddant eisoes mewn cysylltiad â mewnfudwyr ceiswyr lloches a ffoaduriaid nad oes ganddynt ddogfennau ffurfiol, yn enwedig mewn practisiau Meddygon Teulu ac ysbytai. Er mwyn atgyfnerthu hawl pobl â gwahanol statws mewnfudo i ofal iechyd brys, sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, dylai'r Adran Iechyd hefyd weithio â sefydliadau anllywodraethol perthnasol, elusennau a sefydliadau cymorth eraill i sicrhau bod mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn deall cymhwysra.

- Dylai Llywodraeth y DU ymgynghori'n llawn ac asesu effaith cytundeb rhannu data rhwng GIG Digidol (NHS Digital), y Swyddfa Gartref a'r Adran Iechyd ar gydraddoldeb a hawliau dynol wrth gynnal ei adolygiad arfaethedig o iechyd cyhoeddus ac ymddygiad ceisio iechyd. Dylai'r asesiad hwn gynnwys ystyriaeth o a yw'r cytundeb yn creu rhwystr gwir neu ddeongledig i fynediad i ofal iechyd ffoaduriaid, ceiswyr lloches a phobl gyda statws mewnfudo afreolaidd.
- Dylai Llywodraeth yr Alban fabwysiadu cynllun gweithredu eang ei gwmpas gyda digon o adnoddau, sy'n gyson â safonau hawliau dynol rhyngwladol, er mwyn sicrhau hawl Sipsiwn/Teithwyr i iechyd.

Mesurau Gwrthderfysgaeth

Argymhellion

Er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau dan Erthyglau 2 a 5 CERD i ddilyn polisi o ddileu gwahaniaethu ar sail hil, a gwahardd a dileu gwahaniaethu hiliol o ran hawliau lleiafrifoedd ethnig i gael eu trin yn gyfartal o dan y gyfraith, rhyddid crefydd a mynegiant ac addysg, dylai adolygiad Llywodraeth y DU o'i strategaeth gwrthderfysgaeth fod yn annibynnol a chael ei ehangu i:

- asesu effeithiolrwydd y strategaeth gwrthderfysgaeth bresennol a ph'un a allai unrhyw newidiadau arfaethedig iddi waethygu gwahaniaethu hiliol
- ystyried pryderon a fynegwyd am ei heffaith bosibl ar hawliau dynol strategaeth Prevent a'r ddyletswydd gyfreithiol gysylltiedig, gan lunio argymhellion sut y gellir gwella rhaglen Prevent trwy fynd i'r afael â'r pryderon hyn, a
- sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig i strategaeth neu bwerau gwrthderfysgaeth Prydain Fawr yn parchu hawliau dynol fel y maent wedi'u hamddiffyn yn y ddeddfwriaeth ddomestig bresennol, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a chytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig y mae'r DU wedi'u llofnodi a'u dilysu.

Er mwyn cyflawni'u rhwymedigaethau dan Erthyglau 2 a 5 CERD, dylai Llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban:

- Gasglu a chyhoeddi data ar atgyfeiriadau i Raglen Channel, unigolion y mae'r Rhaglen yn eu mabwysiadu a ddim yn eu mabwysiadu, wedi'u dadgyfuno yn ôl nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys hil a chrefydd.
- Sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus sy'n gweithredu i gyflawni dyletswydd Prevent yn asesu effaith eu polisiâu a'u harferion yn ôl gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r hawliau dynol perthnasol sy'n cael eu gwarchod gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a chytuniadau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig, gan gynnwys Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil Gwleidyddol a'r Confensiwn ar Ddileu Gwahaniaethu ar sail Hil.
- Sicrhau bod swyddogion arweiniol Prevent mewn cyrff cyhoeddus yn cadarnhau bod yr hyfforddiant y mae staff yn ei gael ar ddyletswydd Prevent yn cynnwys y rhwymedigaethau cydraddoldeb a hawliau dynol perthnasol a phriodol, yn

enwedig o ran gwahardd gwahaniaethu ar sail hil dan y gyfraith ddomestig a rhyngwladol. Dylent sicrhau hefyd bod yr hyfforddiant yn codi ymwybyddiaeth o wahanol arferion neu gred diwylliannol a chrefyddol ac yn mynd i'r afael â sylfeini rhagfarn ac ystrydebau.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn ac adnoddau cysylltiedig ar gydraddoldeb a hawliau dynol ar gael o [wefan](#) y Comisiwn.

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd ar gydraddoldeb, gwahaniaethu neu faterion hawliau dynol, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cyngori a Chymorth Cydraddoldeb](#), gwasanaeth sy'n annibynnol ac am ddim.

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 i 19:00 (Dydd Llun i ddydd Gwener)
10:00 i 14:00 (Dydd Sadwrn)

Post FREEPOST EASS Llinell Gymorth FPN6521

Gellir cyfeirio cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad yma at: correspondence@equalityhumanrights.com. Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

Fformatau amgen

Mae'r cyhoeddiad yma hefyd ar gael ar ffurf ffeil Microsoft Word ar [wefan](#) y Comisiwn. I gael gwybodaeth am fynediad i'r cyhoeddiad yma mewn fformat amgen, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

© 2017 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Awst 2017

Gallwch lawrlwytho hwn o

www.equalityhumanrights.com

© 2017 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddiad cyntaf: Awst 2017



Comisiwn
**Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol**

**Equality and
Human Rights**
Commission